Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 03.06.2021

## Cronfa Cadernid Economaidd (ERF) i fusnesau sydd â throsiant o £85k+ yn cau 14 Mehefin 2021

Bydd y Gronfa Cadernid Economaidd i fusnesau sydd â throsiant cyn COVID o £85,000+ yn cau am 5:00pm 14 Mehefin 2021.Gall busnesau cymwys, sydd wedi/a fydd yn cael eu effeithio gan y cyfyngiadau sy'n dal i fod ar waith yn ystod mai a Mehefin 2021, wneud cais i'r Gronfa Cadernid Economaidd am gymorth ariannol i helpu i dalu eu costau gweithredu (ac eithrio cyflogau staff). Mae cymorth ar gael i fusnesau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cyfyngiadau a'u cadwyni cyflenwi. Peidiwch ag oedi cyflwyno cais os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys i gael cymorth. I wirio eich cymhwysedd, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/businesssupport/cy

## Cronfa Cadernid Economaidd i fusnesau sydd â throsiant o dan £85,000 ar agor

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd i fusnesau gyda llai na £85k o drosiant wedi agor, a bydd yn cau am 5:00pm 30 Mehefin 2021. Mae'r cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer cyfnod 1 Mai i 30 Mehefin 2021 i fusnesau sydd wedi/yn/am barhau i gael eu heffeithio'n sylweddol gan y cyfyngiadau mewn ymateb i COVID-19 sydd yn parhau. Cyn gwneud cais, gwnewch yn siwr eich bod wedi darllen Canllawiau'r Gronfa a chwblhau'r gwiriwr cymhwysedd:

Canllawiau'r Gronfa:
https://bit.ly/3ccohi8

Gwiriwr Cymhwysedd:
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

Mwy o wybodaeth ar gael yma:
http://bit.ly/CronBusCyfMai2021

# Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Anamaethyddol (RBIS)

Mae'r cynllun yn agored i geisiadau gan unigolion sy'n dymuno dechrau busnes anamaethyddol newydd ac unig fasnachwyr newydd/presennol ac/neu fusnesau sydd eisoes yn cyfrannu neu'n dymuno arallgyfeirio i weithgareddau anamaethyddol. Mae maint y busnes wedi'i gyfyngu i fentrau bach a micro (mae busnesau micro'n cyflogi llai na 10 o weithwyr a busnesau bach yn cyflogi llai na 50 o weithwyr). Mae'r cyfnod Datgan Diddordeb ar agor tan 4 Mehefin 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-gwledig-anamaethyddol-canllawiau

# Cronfa Benthyciadau Canol Tref Gwynedd

Mae'r Gronfa Benthyciadau Canol Tref Gwynedd yn rhan o becyn ehangach o gynlluniau gan Cyngor Gwynedd i gefnogi canol trefi y Sir ac mae'n cyfrannu tuag at ymdrechion Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Mae'r gronfa ar gael i berchnogion eiddo wedi'u lleoli yng nghanol trefi Gwynedd, sydd angen gwelliannau. Pwrpas y benthyciad yw gwella'r eiddo ar gyfer perchnogaeth barhaol, i'w werthu, i'w osod, neu i wneud defnydd o safle gwag. Am fwy o wybodaeth. ac i wneud cais, ewch i:

http://bit.ly/CronfaCanolTref

## Rhwydweithio Rhithiol FSB Gogledd Cymru

Ymunwch â FSB yn Rhwydweithio Rhithwir Gogledd Cymru i gyflwyno'ch hun, cwrdd â busnesau eraill, cyfnewid cysylltiadau, a darganfod beth mae busnesau bach eraill yn ei wneud. Bydd gennych amser i rwydweithio ag eraill yn yr ystafelloedd ymneilltuo hefyd.

- 4 Mehefin 2021, 12.00pm – 1.00pm
  Archebwch yma: https://bit.ly/3g7pCId

- 11 Mehefin 2021, 12.00pm – 1.00pm
  Archebwch yma: https://bit.ly/34KHwv7

## Gweithdy Rhithwir CITB & GwerthwchiGymru: 9 Mehefin 2021, 3:00pm – 4:00pm

Ymunwch â'r digwyddiad ar-lein rhad ac am ddim hwn i ddarganfod sut mae CITB (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu) yn cefnogi'r diwydiant a pha gynhyrchion, grantiau a chyllid sydd ar gael i'ch busnes. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ddysgu mwy am Ddyfynbrisiau Cyflym, cyfleuster dyfynbris ar-lein GwerthwchiGymru sy'n caniatáu i brynwyr gael dyfynbrisiau cystadleuol yn electronig. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu, ewch i:

https://bit.ly/3g9yNrE

## Gweminarau Busnes Cymru

Mae gan Busnes Cymru bellach ddyddiadau min nos ar gyfer eu Gweminar Cychwyn Busnes, ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/cychwyn-gweminar-busnes/

Mae dyddiadau newydd ar gael ar gyfer y modiwlau yng Ngweminarau Tendro Busnes Cymru.

- Modiwl 1: Defnyddio GwerthwchiGymru i ddod o hyd i gyfleon cyflenwi
  http://bit.ly/TendroModiwl1

- Modiwl 2: Y Broses Tendro – Sut i ymateb i Holiadur Cyn Cymhwyso (PQQ) a Gwahoddiad I Dendr (ITT)
  http://bit.ly/TendroModiwl2

- Modiwl 3: Ysgrifennu Ceisiadau Tendr Uwch ac Ychwanegu Gwerth
  http://bit.ly/TendroModiwl3

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru